

Esbonio Profion Firysau a Gludir yn y Gwaed

Gwasanaeth Alcohol a Chyffuriau Arbenigol Aneurin Bevan

Optio allan o brofion firysau a gludir yn y gwaed

Mae cleifion sy'n defnyddio gwasanaeth camddefnyddio sylweddau, p'un a ydynt yn ceisio cymorth ar gyfer defnyddio cyffuriau neu alcohol, yn cael cynnig prawf firysau a gludir yn y gwaed fel rhan o asesiad iechyd arferol. Bydd profion rheolaidd drwy gydol eich amser yn ymgysylltu â'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau.

Beth yw feirws a gludir yn y gwaed?

Ymhlith y firysau a gludir yn y gwaed mae hepatitis B, hepatitis C a HIV. Cânt eu trosglwyddo o berson i berson drwy gyswllt gwaed-i-waed. Fodd bynnag, gall y firysau fod yn bresennol hefyd mewn hylifau corfforol eraill felly gellir eu trosglwyddo'n rhywiol hefyd.

Sut gallwn i fod wedi dod i gysylltiad â feirws a gludir yn y gwaed?

- Tatŵs / Tyllu'r corff.
- Rhannu eitemau personol fel raselau, plicwyr blew, brwsys dannedd, clipwyr gwallt.
- Cyswllt rhywiol heb ddiogelwch – rhyw gwain, rhefrol neu'r geg.
- Trallwysïadau gwaed – cyn 1991.
- Rhannu offer ar gyfer cymryd cyffuriau, megis: nodiadau banc, nodwyddau, chwistrellau, hidlyddion, llwyau, pibellau, gwellt.
- Mam i fabi.

Sut mae'r prawf yn cael ei gynnal?

Proses syml a chyflym o'r enw prawf 'Smotyn gwaed sych'.

- Cesglir sampl fach o waed gan ddefnyddio dyfais pricio bysedd;
- Mae'r canlyniadau ar gael ymhen 3-4 wythnos.



Pam cael prawf?

- Poeni am haint – lleihau eich pryder a darganfod eich statws.
- Canlyniad negyddol – lleihau eich risg o heintiau yn y dyfodol drwy ddysgu sut i gadw'n ddiogel ac yn iach.
- Canlyniad positif – gallwch gael gafael ar gymorth a thriniaeth. Gall hefyd sicrhau nad ydych yn trosglwyddo'r feirws i eraill.
- Gall triniaethau ar gyfer hepatitis C wella bron pawb sydd â'r haint.
- Mae triniaethau'n dechrau gyda phrofion.

Ar gyfer beth allwn ni brofi?

Hepatitis C - feirws sy'n achosi niwed i'r iau, mae'n datblygu'n araf iawn a gall gymryd hyd at 20 mlynedd cyn i unrhyw symptomau ymddangos. Mae modd ei wella.

Hepatitis B - feirws sy'n achosi niwed i'r iau. Mae'n modd i'w drin, a gallwch gael brechiad i atal cael Hep B.

Hiv - mae feirws imiwnoddiffyg dynol yn ymosod ar y system imiwnedd (amddiffyniad y corff rhag clefydau). Mae HIV yn gyflwr hirdymor ond gellir ei reoli. Mae canfod yn gynnar yn bwysig.

Cwestiynau cyn y profion

- Trafodwch eich pryderon gyda'ch meddyg, cwnselydd neu weithiwr cyffuriau.
- Yswiriant a morgeisi – Gall canlyniad prawf positif olygu yswiriant bywyd neu forgais sy'n gysylltiedig â pholisi bywyd gael ei wrthod neu lwytho'r premiwm.
- Mae'n benderfyniad anodd ond fe'ch anogir i drafod canlyniad positif gyda'ch teulu a'ch partneriaid rhywiol. Efallai y byddant am gael eu profi.
- Dylai diogelu syml fod yn ddigon i amddiffyn gweithwyr gofal iechyd a chael triniaeth feddygol a deintyddol yn unrhyw le.
- Cyfrinachedd – mae'r profion gyda'r gwasanaeth yn gyfrinachol ac adroddir ar ganlyniadau ar gronfa ddata iechyd cyhoeddus genedlaethol gyfrinachol.

Beth os ydw i'n cael canlyniad prawf positif?

Os ydych wedi profi'n positif, mae cymryd camau i gael y gofal cywir yn syml. Fe'ch cyfeirir i weld nyrs arbenigol am gymorth ac arweiniad. Efallai y bydd profion cadarnhau pellach yn cael eu cynnal a byddwch yn cael cymorth i gael triniaeth os bydd angen.

Enw:..... (printiwch)

Llofnod:.....

Dyddiad:.....

Wyddech chi?

- Amcangyfrifir bod Hepatitis B neu C yn effeithio ar 400,000 o bobl yn y DU.
- Mae llai nag 20% o bobl sy'n byw gyda Hepatitis C yn y DU wedi cael diagnosis.
- Mae modd gwella Hepatitc C – cyfradd llwyddiant y driniaeth yw tua 90%.
- Mae triniaethau Hepatitis C newydd ac maent yn am ddim, drwy dabled yn unig, heb fawr o sgil-ffeithiau, ac mae triniaeth fel arfer yn para 8-16 wythnos.
- Gallwch gael brechiadau hepatitis B am ddim gan y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau.
- Gall unrhyw un gael HIV os ydynt yn rywiol weithgar, p'un a ydych yn hoyw neu'n syth, neu waeth o ble y dewch.
- Caffaelodd dros 95% o bobl sy'n byw gyda HIV yn y DU hi drwy ryw heb gondom.
- Os yw person sydd â HIV ar driniaeth effeithiol, gyda llwyth feirysol nad yw'n ganfyddadwy, ni allant drosglwyddo'r feirws.

Manylion cyswllt:

Gwasanaeth Arbenigol Camddefnyddio Sylweddau Gwent

GSSMS (Casnewydd a Chaerffili) - 01633 216777

GSSMS (Sir Fynwy, Blaenau Gwent, a Thorfaen) – 01873 735566

Gwasanaeth cyfnewid nodwyddau (Casnewydd)

Cysylltiadau a gwefannau defnyddiol eraill:

Ymddiriedolaeth Hepatitis C – www.hepctrust.org.uk

Llinell gymorth gyfrinachol: 020 7089 6221

NAT (Ymddiriedolaeth Aids Genedlaethol) – www.nat.org.uk

Ymddiriedolaeth Terrance Higgins – www.tht.org.uk

Llinell gymorth: 0808 802 1221

Ymddiriedolaeth yr Iau Prydain – www.britishlivertrust.org.uk

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English”.**